# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)03-08 (p6): 21 Chwefror 2008

#### Cyfeirnod y ddeiseb P-03-099: Llwybr Ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg

#### Geiriad y ddeiseb

We the undersigned ask the National Assembly for Wales to provide a non motorised multi-user track alongside the A40 between the picnic lay-by at Bwlch to the new junction at Talybont-on Usk, thus creating a safe link between the Black Mountains and the Brecon Beacons Rights of Way network.

#### Diben

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y ddeiseb newydd hon.

#### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mrs. L.C. Bennett, Swyddog Mynediad y Sir, Cymdeithas Ceffylau Prydain.  Mae hi wedi darparu peth gwybodaeth ychwanegol.

Cyhoeddodd Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru astudiaeth ddichonoldeb ym mis Medi 2007.  Cyflwynwyd yr astudiaeth hon i Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.  Daeth yr astudiaeth hon i'r casgliad:

'Byddai'r cynllun yn darparu llwybr cyswllt defnyddiol, hygyrch a diogel ar draws Cefnffordd yr A40 i holl ddefnyddwyr heblaw modurwyr. Byddai hyn yn arbennig o fanteisiol i bobl sy'n marchogaeth gan y bu galw gan y grŵp hwn ac mae'r amodau presennol yn waharddol'

Mae'r Astudiaeth Ddichonoldeb hon yn argymell ymhellach 'y dylid datblygu'r cynllun'.

Ysgrifennodd Kirsty Williams AC at y Dirprwy Brif Weinidog ar 6 Medi 2007 i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr Astudiaeth Ddichonoldeb.  Atebodd y Dirprwy Brif Weinidog ar 26 Medi 2007, ac ymhelaethodd ar sefyllfa Llywodraeth y Cynulliad.  Yn wyneb yr astudiaeth ddichonoldeb, mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi dod i'r casgliad,:

'...byddai cost cynllun o'r fath dros £100,000. Gan y disgwylir mai lefel isel o ddefnydd a wneir ohono, a'r galwadau ar ein hadnoddau prin iawn ar gyfer cynlluniau o'r fath ar draws Cymru, mae'n annhebygol y byddai'r cynllun hwn yn cael blaenoriaeth uchel,  ac mae felly'n annhebygol o gael lle yn ein rhaglenni gwaith yn y tymor byr.  Bydd fy swyddogion, fodd bynnag, yn gofyn i Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru ddatblygu'r cynllun ymhellach, fel y bydd cynllun posibl mwy eglur wedi ei lunio pe bai adnoddau ar gael yn y dyfodol.'

Mae copi o lythyr y Dirprwy Brif Weinidog i'w weld fel Atodiad A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Chwefror 2008**